

NRW has released latest stock assessments for salmon and sea trout in Wales

Natural Resources Wales (NRW) has today (25 July 2022) published the 2021 salmon stock assessments for 23 principal salmon rivers in Wales (including 3 cross-border rivers) based upon the latest available data.

Salmon and sea trout (sewin) are both iconic species in Wales, requiring high quality freshwater habitats to thrive and are a key indicator of the environmental quality of river catchments, while also providing important opportunities for healthy and valuable recreation.

In 2021 Wales recorded the lowest catches of both salmon and sea trout since consistent records began in 1970s.

Ben Wilson, Principal Fisheries Officer for NRW, said:

“This represents the worst level of salmon and sea trout stock performance ever recorded in Wales and is of major concern indicating that many stocks are now in serious trouble and at risk of failing to maintain sustainable populations in the future.

“This is a clear indication that we must redouble our efforts to tackle the decline in fish numbers.

“These declines are replicated in most other countries across the North Atlantic distribution of salmon and their European range, where populations have declined over the past few decades.

“This has been most evident for salmon, but recently a sharp decline in Welsh sea trout stocks has also occurred particularly in south and south west Wales.”

The full stock assessment results have been published in the annual salmon stock assessment report for England and Wales that has been co-authored with Cefas and the Environment Agency and can be found here :-

[Assessment of Salmon Stocks and Fisheries in England and Wales in 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/111111/Assessment_of_Salmon_Stocks_and_Fisheries_in_England_and_Wales_in_2021.pdf)

[Assessment of Salmon Stocks and Fisheries in England and Wales: Background Report 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/111111/Assessment_of_Salmon_Stocks_and_Fisheries_in_England_and_Wales_Background_Report_2021.pdf)

Wales has 23 principal salmon river catchments for which stock assessments are undertaken and reported upon annually. The results from the latest assessment have shown that 91%, 21 salmon rivers in Wales are now categorised as being At Risk, and 9% Probably at Risk. No rivers were categorised Not at Risk or Probably Not at Risk.

In addition, Wales has 33 main sea trout rivers – No rivers classed as ‘Not at Risk’, four rivers (12%) as Probably Not at Risk, eight rivers (24%) as Probably at Risk and 21 rivers (64%) as At Risk.

Ben added:

“In 2020 we introduced Catch and Release byelaws to help protect for salmon and sea trout across Wales, and we have seen anglers and netters react positively to these. Unfortunately, there is no single ‘magic’ solution to protect and re-build vulnerable stocks and we must continue to work on a wide range of initiatives to make our rivers healthier and safer for salmon and sea trout.

“We need to improve river water quality and stop acute and diffuse agricultural pollution, as well as tackling Water Industry incidents. We must also remove barriers to migration and protect stocks from unsustainable predation.

“Given the further risk from climate change ensuring that our rivers have clean, cool water to support salmon and trout is essential

“Many partners have important roles to play when stocks are at such low levels and any additions to the wild spawning stocks in our rivers are particularly valuable when stocks are at such low levels.”

NRW has an ongoing river restoration programme to improve habitats and remove barriers ensuring fish have safe passage to spawning grounds and is working with stakeholders and partners on implementing an agreed revised policy approach regarding fish eating birds.”

In 2020, NRW published the [Natural Resources Wales / Salmon and sea trout plan of action 2020](#)

The plan set out nine key themes in tackling the salmonid emergency :

1. Evidence,
2. Managing exploitation,
3. Protecting stocks through effective enforcement,
4. Tackling physical habitat constraints in the freshwater environment,
5. Safeguarding water quality and quantity,
6. Addressing land management, and associated risks to water quality,
7. Addressing predation on salmonids: fish-eating birds and seals,
8. Understanding marine pressures,
9. Understanding new and emerging potential pressures.

The measures for the management of our fisheries and protection and restoration of fisheries habitat. developed by the Plan of Action, along with the England and Wales [NASCOS “Implementation Plan” for 2019-24](#), will be taken over five year periods

Actions have included reducing exploitation of salmon by both net and rod fisheries. Since 2020 all salmon caught in Wales must now be released. Rod fisheries have achieved a release rate across Wales of some 86% of sea trout through both voluntary and mandatory controls.

Ben added:

“The continued decline in salmon and sewin stock numbers means that every fish that reaches its spawning ground or is returned safely to the water after being caught could contribute to improving fish populations and even relatively small numbers of fish are crucial to recover stocks in as short as time as possible.

“Moving forward we will continue to work closely with all those for whom the health our rivers, fish stocks and fisheries are important, to ensure salmon once again thrive in our rivers.”

ENDS

Mae CNC wedi rhyddhau'r asesiadau diweddaraf o stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru

Heddiw, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi asesiadau 2021 o stociau eogiaid ar gyfer 23 o brif afonydd eogiaid yng Nghymru (gan gynnwys tair afon drawsffiniol) yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael.

Mae eogiaid a brithyllod y môr (siwin) yn rhywogaethau eiconig yng Nghymru. Mae arnynt angen cynefinoedd dŵr croyw o ansawdd uchel i ffynnu ac maent yn ddangosydd allweddol o ansawdd amgylcheddol dalgylchoedd afonydd, a hefyd yn darparu cyfleoedd pwysig ar gyfer hamdden iach a gwerthfawr.

Yn 2021 cofnododd Cymru'r nifer isaf o ddalfeydd ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr ers dechrau cadw cofnodion cyson yn y 1970au.

Meddai Ben Wilson, Prif Swyddog Pysgodfeydd ar gyfer CNC:

"Dyma'r lefel waethaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru o ran perfformiad stociau eogiaid a brithyllod y môr ac mae'n destun pryder mawr sy'n dangos bod llawer o stociau bellach mewn trafferth difrifol ac mewn perygl o fethu â chynnal poblogaethau cynaliadwy yn y dyfodol.

"Mae hyn yn arwydd clir bod yn rhaid i ni gynyddu ein hymdrechion i fynd i'r afael â'r dirywiad yn nifer y pysgod.

"Mae'r dirywiad hwn i'w weld yn y rhan fwyaf o wledydd eraill ar draws dosbarthiad eogiaid yng Ngogledd yr Iwerydd a'u cynefin Ewropeaidd, lle mae poblogaethau wedi gostwng dros y degawdau diwethaf.

"Mae hyn wedi bod yn fwyaf amlwg yn achos eogiaid, ond yn ddiweddar mae gostyngiad sydyn wedi digwydd yn stociau brithyllod môr Cymru hefyd, yn enwedig yn y de a'r de-orllewin."

Mae canlyniadau llawn yr asesiad o stociau wedi'u cyhoeddi yn yr adroddiad asesu stociau eogiaid blynyddol ar gyfer Cymru a Lloegr sydd wedi'i gyd-ysgrifennu â Cefas ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac sydd i'w weld yma :-

[Assessment of Salmon Stocks and Fisheries in England and Wales in 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97222/assessment-salmon-stocks-and-fisheries-in-england-and-wales-2021.pdf)

[Assessment of Salmon Stocks and Fisheries in England and Wales: Background Report 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97222/assessment-salmon-stocks-and-fisheries-in-england-and-wales-background-report-2021.pdf)

Mae gan Gymru 23 o ddalgylchoedd prif afonydd eogiaid ac rydym yn asesu ac yn adrodd ar eu stociau bob blwyddyn. Mae canlyniadau'r asesiad diweddaraf wedi dangos bod 91%, sef 21 o afonydd eogiaid yng Nghymru bellach wedi'u categorio fel rhai sydd 'Mewn Perygl', a 9% sydd 'Mewn Perygl yn ôl Pob Tebyg'. Nid oedd unrhyw afonydd wedi'u categorio fel rhai sydd 'Ddim Mewn Perygl' neu 'Ddim Mewn Perygl yn ôl Pob Tebyg'.

Yn ogystal, mae gan Gymru 33 o brif afonydd brithyllod y môr – dim afonydd sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd 'Ddim mewn Perygl', pedair afon (12%) sydd 'Ddim Mewn Perygl yn ôl Pob Tebyg', wyth afon (24%) sydd 'Mewn Perygl yn ôl Pob Tebyg', a 21 afon (64%) fel sydd 'Mewn Perygl'.

Ychwanegodd Ben:

"Yn 2020, gwnaethom gyflwyno is-ddeddfau Dal a Rhyddhau i helpu i ddiogelu eogiaid a brithyllod y môr ledled Cymru, ac rydym wedi gweld pysgotwyr a rhwydwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'r rhain. Yn anffodus, nid oes un ateb delfrydol i ddiogelu ac ailadeiladu stociau

bregus a rhaid inni barhau i weithio ar ystod eang o fentrau i wneud ein hafonydd yn iachach ac yn fwy diogel ar gyfer eogiaid a brithyllod môr.

"Mae angen i ni wella ansawdd dŵr afonydd ac atal llygredd amaethyddol aciwt a gwasgareddig, yn ogystal â mynd i'r afael â digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r Diwydiant Dŵr. Rhaid inni hefyd gael gwared â rhwystrau sy'n atal ymfudiad a diogelu stociau rhag ysglyfaethu anghynaliadwy.

"O ystyried y perygl a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, mae sicrhau bod gan ein hafonydd ddŵr glân ac oer i gefnogi eogiaid a brithyllod yn hanfodol.

"Mae gan lawer o bartneriaid rolau pwysig i'w chwarae pan fo stociau ar lefelau mor isel ac mae unrhyw ychwanegiadau i'r stociau silio gwyllt yn ein hafonydd yn arbennig o werthfawr pan fo stociau ar lefelau mor isel."

"Mae gan CNC raglen barhaus i adfer afonydd i wella cynefinoedd a chael gwared ar y rhwystrau, gan sicrhau bod gan bysgod lwybr diogel i fannau silio ac mae'n gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i weithredu dull polisi diwygiedig cytunedig o ran adar sy'n bwyta pysgod."

Yn 2020, cyhoeddwyd [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynllun gweithredu ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru 2020](#)

Mae'r cynllun yn nodi naw thema allweddol ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng salmonidau:

1. Tystiolaeth,
2. Rheoli ecsbloetiaeth,
3. Rheoli stociau drwy orfodi effeithiol,
4. Mynd i'r afael â chyfyngiadau ffisegol ar gynefinoedd yn yr amgylchedd dŵr croyw,
5. Diogelu ansawdd a swm dŵr,
6. Mynd i'r afael â rheoli tir, a'r risgiau cysylltiedig o ran ansawdd dŵr,
7. Mynd i'r afael ag ysglyfaethu ar salmonidau: adar pysgysol a morloi,
8. Deall pwysau morol,
9. Deall pwysau newydd posib sy'n dod i'r amlwg.

Bydd y mesurau ar gyfer rheoli ein pysgodfeydd a diogelu ac adfer cynefinoedd pysgodfeydd, a ddatblygwyd gan y Cynllun Gweithredu, ynghyd â "[Chynllun Gweithredu](#)" [NASCO Cymru a Lloegr ar gyfer 2019-24](#), yn digwydd dros gyfnodau o bum mlynedd.

Mae'r camau gweithredu wedi cynnwys lleihau'r defnydd o eogiaid gan bysgodfeydd rhwyd a gwialen. Ers 2020 mae'n rhaid rhyddhau pob eog sy'n cael ei ddal yng Nghymru. Mae pysgodfeydd gwialen wedi cyflawni cyfradd rhyddhau o ryw 86% ar gyfer brithyllod y môr ledled Cymru drwy fesurau rheoli gwirfoddol a gorfodol.

Ychwanegodd Ben:

"Mae'r gostyngiad parhaus yn niferoedd y stociau o eogiaid a brithyllod y môr yn golygu y gallai pob pysgodyn sy'n cyrraedd ei fan silio neu sy'n cael ei ddychwelyd yn ddiogel i'r dŵr ar ôl cael ei ddal gyfrannu at wella poblogaethau pysgod ac mae hyd yn oed niferoedd cymharol fach o bysgod yn hanfodol i adfer stociau mewn cyn lleied o amser â phosib.

"Wrth symud ymlaen byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phawb sy'n gwerthfawrogi pwysigrwydd iechyd ein hafonydd, ein stociau pysgod a'n pysgodfeydd, er mwyn sicrhau bod eogiaid yn ffynnu unwaith eto yn ein hafonydd."

DIWEDD